**Adroddiad i:** Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 10 Ebrill 2013

**Awdur yr Adroddiad:** Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol

**Teitl:** Siarter Archwilio Mewnol

---

## 1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig. Adroddiad eglurhaol cryno yw hwn, gan fod yr holl wybodaeth angenrheidiol yn y Siarter ei hunan.

## 2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad?

Cafodd y Siarter Archwilio Mewnol bresennol ei pharatoi yn 2010 yn unol â safonau proffesiynol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol. Daeth y Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus newydd i rym ar 1 Ebrill 2013, felly mae angen i'r Pwyllgor hwn gymeradwyo Siarter ddiwygiedig sy'n cydymffurfio â gofynion y Safonau newydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol ddiwygiedig.